



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol

Gorffennaf 2018

Tirweddau Dynodedig: Gwerthfawr a Chydnerth

Cynnwys.....	1
Rhagair.....	2
Crynodeb.....	3
Pwrpas a Chefnidir.....	5
Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol	5
Lleoedd Gwerthfawr	6
1. Tirweddau i bawb.....	6
Amgylcheddau Cydnerth	7
2. Esiampl ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.....	7
3. Rhoi stop ar golli bioamrywiaeth.....	8
4. Ynni gwyrdd a datgarboneiddio.....	9
Cymunedau Cydnerth	9
5. Gwireddu potensial economaidd y dirwedd.....	9
6. Cynyddu twristiaeth a hamddena awyr agored.....	10
7. Y Gymraeg yn ffynnu.....	11
Ffyrdd Cydnerth o Weithio	11
8. Mae pob tirwedd yn bwysig.....	12
9. Llwyddo trwy gydweithio.....	12
10. Arloesedd wrth gael adnoddau.....	13
Monitro cynnydd	14

Gwerthfawr a chydnerth

Rhagair gan Hannah Blythyn AC, Gweinidog yr Amgylchedd

Yn ein Hardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a'n Parciau Cenedlaethol y ceir rhai o ardaloedd harddaf a mwyaf trawiadol a dramatig cefn gwlad Cymru. Maen nhw'n dirweddau o bwys cenedlaethol ac mae eu dynodiad yn rhoi iddyn nhw'r statws uchaf y gellir ei roi ar gyfer gwarchod tirwedd. Mae miliynau o ymwelwyr yn profi'u rhyfeddodau bob blwyddyn.

Mae arolygon diweddar yn dangos bod yna awydd i gydnabod a rheoli tirweddau mewn ffordd newydd ond gan barchu gwerth diogelu ardaloedd mwyaf trawiadol y genedl.



Rwyf eisoes wedi datgan yn glir ein bod am gadw'r tirweddau dynodedig hyn ac nad ydym am wanhau'u dibenion o ran diogelu a chyfoethogi'u harddwch naturiol. Bwriad y themâu â blaenoriaeth yn y datganiad hwn yw integreiddio'r dibenion hynny'n well, gan gynnwys diogelu bioamrywiaeth a'r uchelgais o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chynyddu nifer y bobl sy'n gwerthfawrogi'r tirweddau hyn a'r buddiannau y maen nhw'n eu creu. Eu bwriad yw gwneud tirweddau Cymru'n fwy cydnerth a gwireddu eu gwerth llawn.

Byddaf yn parhau i annog a chefnogi unrhyw gydweithio all ein helpu i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a ddaw wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, ac i daclo'r pynciau llosg a'r blaenoriaethau gafodd eu nodi yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Bydd y datganiad hwn a'r setliad ariannol ar gyfer gweddill tymor y Llywodraeth hon yn cynnig sail i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol i fwrw'n hyderus yn eu blaenau i lywio tirweddau'r dyfodol sy'n cyflawni dros Gymru.

Crynodeb: Gwerthfawr a Chydnerth

Mae'r datganiad hwn yn nodi pedwar amcan ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru.

Yn gyntaf, eu bod yn **Lleoedd Gwerthfawr** sy'n denu mwy na'r cynulleidfaoedd traddodiadol ac sy'n argyhoeddi croestoriad mwy amrywiol o gymdeithas Cymru i deimlo bod ganddyn nhw ran yn y tirweddau naturiol hyn. Rhaid ffurfio neu gynnal partneriaethau ffurfiol sy'n rhoi cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

Yn ail, bod ynddyn nhw **Amgylcheddau Cydnerth** sy'n cyfoethogi gwerth natur ac yn gwyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae hyn yn bwysig ynddo'i hun ac o ran sicrhau manteision tymor hir i gymdeithas. Rhaid i'r ardaloedd hyn fod yn esiamplau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gyda'r Awdurdodau a'r partneriaethau'n arwain gweithgareddau sy'n rhoi stop ar y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol, wrth iddyn nhw gynnal eu swyddogaethau a pharatoi'r cynllun rheoli, eu bod yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd hynny'n golygu cysoni fwyfwy â'n polisi newydd ar adnoddau naturiol tra'n parchu gwerth oesol pwrpas gwreiddiol yr ardaloedd hyn.

Yn drydydd, eu bod yn cynnal **Cymunedau Cydnerth**. Y berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd sydd wedi ffurfio'r tirweddau hyn a'u cymunedau. Mae sicrhau cydnerthedd economaidd a chymdeithasol y cymunedau hyn yn rhan annatod o ddiben eu dynodi. Mae angen gwneud mwy i ddeall yn well beth sy'n gwneud yr economi leol yn gydnerth a beth yw'r cyfleoedd economaidd, ac i sicrhau bod y dynodiad yn cefnogi ac yn creu cyfleoedd gwaith. Fel cyrchfannau pwysig i ymwelwyr, rhaid annog a darparu lleoedd a chyfleusterau sy'n ateb y diben ar gyfer hamdden awyr agored sy'n gyson o ran safon â'r tirweddau trawiadol y maen nhw'n rhan ohonyn nhw.

Yn olaf, rhaid i bartneriaethau'r AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fabwysiadu **Ffyrdd Cydnerth o Weithio** gan ysgogi cydweithio i gael y buddiannau mwyaf a thaclo'r heriau a wynebir yn y tirweddau hyn. Bydd angen trefniadau gweithredol agosach rhwng yr ardaloedd dynodedig ar lefel ranbarthol a chenedlaethol a rhwng y tirweddau dynodedig a'r ardaloedd sydd heb ddynodiad statudol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaethau'r AHNE i'w gwneud yn fwy cydradd â Pharciau Cenedlaethol o ran statws, proffil ac adnoddau. Hefyd, caiff Partneriaeth Tirweddau Dynodedig Genedlaethol ei ffurfio i ddatblygu diwylliant cydweithio cryf a fydd hefyd yn craffu ar flaenoriaethau a gwaith tirweddau dynodedig ac yn eu herio. Ar y lefel leol, caiff mesurau i wella amrywiaeth a chynrychiolaeth leol ar fyrdau Parciau Cenedlaethol eu cefnogi.

Bydd Llywodraeth Cymru'n lleihau'r beichiau gweinyddol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac yn llunio mesurau i alluogi'r cyrff arwain i gynllunio adnoddau am oes Tymor Cynulliad. Mae'r datganiad hwn sy'n pennu'n blaenoriaethau ar gyfer gweddill y tymor yn gam i'r cyfeiriad hwn a bydd yn dylanwadu ar lythyron grant strategol y dyfodol. Yn arbennig, rhaid i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gynyddu'r refeniw y mae gweithgareddau masnachol priodol yn ei gynhyrchu ond heb aberthu gwerthoedd a

dibenion craidd yr ardaloedd. Caiff system rheoli perfformiad gyson a chryfach sy'n gysylltiedig â fframwaith gwerthuso'r Polisi Adnoddau Naturiol ei chyflwyno a bydd hynny'n dylanwadu ar y pwyntiau ffurfiol ar gyfer adolygu'r trefniadau llywodraethu presennol.

Gyda'i gilydd, bydd yr ymrwymadau a'r blaenoriaethau yn y datganiad hwn, ynghyd â'r gefnogaeth ariannol sy'n parhau, yn gosod sylfaen i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol fod yn fwy cydnerth a chael eu gwerthfawrogi fwy.

Pwrpas a Chefndir

Mae'n tirweddau dynodedig yn asedau cenedlaethol strategol ac yn fecanwaith allweddol ar gyfer gwireddu uchelgeisiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Llywodraeth Cymru.

Cafodd datganiad diwethaf Llywodraeth Cymru ar y Parciau Cenedlaethol ei gyhoeddi yn 2007. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar fersiwn ddiwygiedig a oedd yn cynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn 2013 ond ni chafodd ei gyhoeddi oherwydd y drafodaeth oedd yn cychwyn ar y Ddeddf Lesiant a Deddf yr Amgylchedd. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd adolygiad annibynnol o bwrpas a llywodraethiant Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru o dan gadeiryddiaeth yr Athro Terry Marsden (Cyfarwyddwr Athrofa Ymchwil Lleuedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd) ac yna cynhaliwyd Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol i ystyried ei argymhellion a'r ddadl dros ddiwygio.

Cyhoeddwyd Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru yn 2017. Mae'n dadlau o blaid mwy o gydnabyddiaeth i bob tirwedd a chryfhau'r aliniad ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r graddau y byddai hynny'n gofyn am newid dibenion statudol y tirweddau dynodedig a lefel yr amddiffyniad iddynt, wedi sbarduno trafodaeth eang. Pwrpas cyhoeddi'r datganiad hwn nawr yw dod â'r cyfnod o adolygu a phwyso a mesur i ben a phennu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer AHNE a Pharciau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys deg thema drawsffiniol â blaenoriaeth sy'n cynnig fframwaith cyson ar gyfer pob tirwedd ddynodedig, ac ar gyfer rhanddeiliaid cenedlaethol y mae eu polisiau a'u penderfyniadau'n dylanwadu ar y ffordd y rheolir tirweddau dynodedig. Mae'n dal i roi hyblygrwydd o ran rheoli a chyflawni ym mhob ardal.

Gall cynlluniau rheoli statudol AHNE a Pharciau Cenedlaethol fod yn wahanol i'w gilydd er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun a blaenoriaethau lleol. Nod y blaenoriaethau yw eu gwneud yn fwy atebol ac i gyflawni'n well, hynny'n unol â Deddf yr Amgylchedd a Pholisi Adnoddau Naturiol Cymru.

Y Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol

Yn ein AHNE a'n Parciau Cenedlaethol y ceir rhai o ardaloedd harddaf a mwyaf trawiadol a dramatig cefn gwlad Cymru. Maen nhw'n dirweddau o bwys cenedlaethol ac mae eu dynodiad yn rhoi iddyn nhw'r statws uchaf y gellir ei roi ar gyfer gwarchod tirwedd. Mae'r lleuedd arbennig hyn yn rhoi cyfleoedd eithriadol i brofi'r amgylchedd naturiol gan gynnwys y Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru a'r ardaloedd ag iddynt fynediad agored. Maen nhw i gyd yn cynnig cyfleoedd i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau hamdden fel beicio mynydd, mynydda, canwïo ac arforgampau. Mae miliynau o ymwelwyr yn cael blas ar y rhyfeddodau hyn bob blwyddyn.

Prif bwrpas y Parciau Cenedlaethol yw gwarchod a chyfoethogi harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd hyn ac mae gan AHNE ddibenion statudol tebyg i warchod a chyfoethogi'r harddwch naturiol. Mae gan Barciau Cenedlaethol ail bwrpas hefyd, sef hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o rinweddau arbennig y Parciau. Hefyd, mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i feithrin lles economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol.

Mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur yn cydnabod tirweddau dynodedig fel ardaloedd gwarchodedig Categori V "lle mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi esgor ar ardal ag iddi gymeriad unigryw o werth arwyddocaol o ran ei hecolog, bioleg, diwylliant a'i golygfeydd: a lle bo diogelu cyfanwaith y rhyngweithio hwn yn hanfodol i ddiogelu a chynnal ardal a'i gwerth o ran gwarchod natur a gwerthoedd eraill."

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod gwerth amcanion gwreiddiol y tirweddau dynodedig yn dal i fod yn berthnasol. Mae'n bwriadu felly ***cadw pwrpasau gwreiddiol y Parciau Cenedlaethol a diogelu adran 11A Deddf Mynediad i Gefn Gwlad 1949 ("Sandford") a chadw pwrpas presennol AHNE.***

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn dangos nad yw pob un o ecosystemau Cymru'n dangos holl nodweddion cydnerthedd. Mae bioamrywiaeth yn lleihau ac mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a gollwyd yn brawf o hynny. Mae rhai cynefinoedd wedi crebachu'n ddifrifol. Mae hynny'n golygu, heb wneud rhywbeth, bod y manteision y mae ein hadnoddau naturiol yn esgor arnyn yn y fantol.

Er mwyn mynd i'r afael â heriau amgylcheddol Cymru, rhaid i'r tirweddau dynodedig wneud mwy i nodi, gwarchod a gwireddu'r manteision o'r nwyddau cyhoeddus y maen nhw'n eu diogelu er lles holl bobl Cymru.

Mae fframwaith deddfwriaethol newydd Cymru yn un uchelgeisiol. ***Rhaid i gyrff rheoli'r tirweddau dynodedig ymroi'n llwyr i archwilio ei botensial i roi inni'r 'Gymru a Garem', a dysgu beth sy'n gweithio.*** Pan fydd adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n dda, bydd cymunedau'n ffynnu, cyfoethogir cymdeithas a'r economi a bydd llesiant Cymru'n gwella. Mae potensial i elwa ar brofiadau cytûn y tirweddau dynodedig er mwyn atal y dirywiad ym myd natur, heb anghofio'r angen i sicrhau cydnerthedd economaidd ein cymunedau gwledig.

Lleoedd Gwerthfawr

Ceisio denu mwy na'r cynulleidfaoedd traddodiadol ac argyhoeddi croestoriad mwy amrywiol o gymdeithas Cymru i deimlo bod ganddyn nhw ran yn y tirweddau naturiol hyn.

1. Tirweddau i bawb

Mae'r cyswllt sylfaenol rhwng pobl a lle yn sylfaenol i les pobl Cymru. Mae tirweddau yn eu holl ffurfiau (trefol, gwledig, arfordirol, morol, diwydiannol ac ati) yn dylanwadu ar deimladau a hunaniaeth unigolion, cymunedau a'r genedl. Mae tirweddau'n helpu pobl i ddeall y gorffennol. Maen nhw'n hysbysu'r presennol ac yn helpu cymdeithas i fynegi'i gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Fel mynegiant gweledol o'n hunaniaeth, mae tirweddau Cymru'n rhan bwysig o'r broses o greu cenedl. Mae rhai'n cael eu hystyried yn eiconig ac mae delweddau ohonyn nhw'n cael eu defnyddio trwy'r byd i gyfleu negeseuon am hunaniaeth gytûn Cymru.

Mae tirweddau dynodedig yn bwysig wrth geisio cryfhau teimladau pobl am yr amgylcheddol naturiol a'u cael i gydnabod eu cyfraniad at yr economi cefn gwlad a'u heffaith ar iechyd ac ansawdd bywyd pobl, yn drigolion ac yn ymwelwyr fel ei gilydd. Yn ogystal, ***dylai partneriaethau eang ffurfiol gael eu sefydlu neu eu cynnal a bod eu corff rheoli yn rhoi'r gallu a'r pŵer iddynt greu cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau*** mewn cysylltiad â'r tirweddau dynodedig.

Er ei bod yn bwysig bod pob rhan o gymdeithas yn cael profi'r tirweddau dynodedig hyn, dylid rhoi sylw penodol i blant a theuluoedd ifanc o ardaloedd o amddifadedd. Rhaid cymryd camau i ***helpu i daclo'r anghydraddoldebau yng nghanlyniadau iechyd, addysgol ac economaidd y tlotaf yn ein cymdeithas***. Bydd y gwaith hwnnw'n cynnwys rhaglenni addysg awyr agored a chyfleoedd i wirfoddoli.

Dylai Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gydnabod natur gymhleth ac amlddimensiynol allgáu cymdeithasol, ceisio hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol yn holl waith yr AHNE a Pharciau Cenedlaethol, ceisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol a cheisio lleihau allgáu cymdeithasol yn ei holl ffurfiau.

Amgylcheddau Cydnerth

Cyfoethogi gwerth natur a gwyrddroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth, hynny at ei ddiben ei hun, a sicrhau manteision tymor hir i gymdeithas.

2. Esiampl ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Ceir cefnogaeth eang i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn dilyn o hynny, cydnabyddir bod cyrff rheoli tirweddau dynodedig mewn lle da i fynd â'r agenda hon yn ei blaen yn eu hardaloedd oherwydd eu profiad a'u harbenigedd, yr amrywiaeth o adnoddau naturiol a geir o fewn eu ffiniau a'u cysylltiadau helaeth â chymunedau buddiant, gan gynnwys pobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn eu ffiniau. Mae 25% o dir Cymru'n dirweddau dynodedig sy'n golygu bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r partneriaethau AHNE yn bartneriaid allweddol o ran ein blaenoriaethau cenedlaethol a'r Gymru a garem.

Cydnabyddir hefyd y cyfleoedd a ddaw o alinio'r gwaith a wneir mewn tirweddau dynodedig ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn enwedig wrth i'r DU adael yr UE ac effaith bosib hynny ar reoli tir a datblygu gwledig. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod yn rhaid wrth ymagwedd ofodol i gael y gorau o'r tir ac mae'n cynnig rhaglen lle bydd cymorth rheoli tir yn y dyfodol yn gallu targedu ardaloedd penodol. Yn y cyd-destun hwn, ymchwilir i botensial Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ymhlith eraill, i weinyddu cynlluniau.

Dylai AHNE a Pharciau Cenedlaethol a chanddynt ddimensiwn economaidd-gymdeithasol fod yn esiampl o ran sut i leihau'r tensiynau yn y gystadleuaeth am adnoddau naturiol.

Mae ganddyn nhw strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd a dylent ddefnyddio mecanweithiau fel y Cynllun Rheoli a'r Cynllun Datblygu Lleol yn hyn o beth. Bydd y Datganiadau Ardal a ddaw yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar rôl gweithredu ar raddfa'r dirwedd a'i gwella.

I gefnogi hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle cyntaf i gyflwyno deddfwriaeth fydd yn ei wneud yn ***ofyn ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau.*** Bydd dyletswydd debyg ar ***awdurdodau'r AHNE o ran eu dyletswydd i baratoi cynllun rheoli*** ar gyfer yr ardal. Drwy hynny, daw'r tirweddau dynodedig o dan y deddfwriaeth amgylcheddol ddiweddaraf yng Nghymru heb golli gwerth eu pwrpas gwreiddiol.

3. Rhoi stop ar golli bioamrywiaeth

Ceir rhai o ardaloedd o harddwch naturiol mwyaf trawiadol Cymru yn yr AHNE a'r Parciau Cenedlaethol. Maen nhw'n gyfoeth o amrywiaeth ddaearegol a biolegol.

Mae newidiadau yng ngwasgariad a niferoedd planhigion, anifeiliaid a microbau yn effeithio ar y ffordd y mae ecosystemau'n gweithio a'u gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystemau. Mwy'n y byd o rywogaethau a gollir mewn ecosystem, lleia'n y byd y bydd yn gallu gwrthsefyll rhywogaethau 'estron', gan effeithio ar gynhyrchiant, ailgylchu maethynnau ac ar ddibynadwyedd a sefydlogrwydd yr ecosystem. Mae bioamrywiaeth felly'n hanfodol i gynnal yr ecosystemau sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol y mae'n bywyd yn dibynnu arny'n nhw.

Mae pob tirwedd ddynodedig yn unigryw. Mae pob un yn wynebu heriau sylweddol yn sgil hinsawdd sy'n newid a'r pwysau cynyddol ar y dirwedd i ddarparu bwyd, ynni a dŵr ac i storio carbon. Ni fu erioed amser mwy tyngedfennol i wynebu'r her i wneud ein tirweddau'n fwy cydnerth ac i reoli'r newidiadau i gadw'r effeithiau negyddol ar dirweddau a chymunedau mor fach â phosib.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn dangos nad oes yr un ecosystem yng Nghymru sydd wedi llwyddo i gadw holl nodweddion ei chydnerthedd, gan gynnwys ein tirweddau dynodedig. Un o'r blaenoriaethau ar gyfer tirweddau dynodedig yw gweithredu ar sail y canfyddiadau hyn a sicrhau ein bod wrth reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn canolbwyntio ar gynnal a gwella statws eu nodweddion - eu cysylltedd, eu cyflwr, eu maint a'u hamrywiaeth. Rhaid felly wrth weithredu pellach mewn tirweddau dynodedig i arafu'r dirywiad mewn bioamrywiaeth er mwyn cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau.

Mae llawer o dirweddau dynodedig yn cynnwys neu'n ffinio â dynodiadau fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a dynodiadau anstatudol fel Arfordiroedd Treftadaeth. Mae safleoedd o'r fath yn cael eu gweld gan lawer fel elfennau canolog strategaethau lleol, rhanbarth a byd-eang ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth. Bydd cysylltiad amlwg rhwng iechyd tirweddau dynodedig ac

unrhyw welliant ar dirweddau a safleoedd cyffiniol. Gan fod **tirweddau dynodedig mor eang, maen nhw'n feganwaith i sicrhau ecosystemau iach, cydnerth a chynhyrchiol sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac sy'n cyfrannu at gysylltu cynefinoedd â'i gilydd.**

Mae *Coetiroedd i Gymru* yn gosod dadl gref o blaid ehangu coetiroedd ac arfer mesurau rheoli da. Mae'r strategaeth hon yn gosod allan y math o goetir sydd ei heisiau arnom, ar sail y blaenoriaethau yn y Polisi Adnoddau Naturiol sy'n cynnwys cefnogi datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru a chynyddu gorchudd y canopi a choetiroedd mewn llyfydd addas. Mae creu coetiroedd brodorol a chymysg newydd sy'n gallu esgor ar fuddiannau niferus, trwy eu plannu a thrwy brosesau naturiol, yn llawn gymaint o her i'r tirweddau dynodedig ag i weddill Cymru. Mae hi'n bosib **cynyddu gorchudd y coetir heb aberthu nodweddion arbennig y tirweddau hyn.**

4. Ynni gwyrdd a datgarboneiddio

Rhaid i dirweddau dynodedig **gyfrannu at economi carbon isel gynaliadwy yng Nghymru**, er enghraifft, **trwy ganiatáu cynhyrchu ynni adnewyddadwy o'r maint priodol, rheoli dŵr a dal a storio carbon.**

Er mwyn diogelu a chyfoethogi rhinweddau eithriadol y tirweddau hyn, ceir mesurau arbennig o'u cymharu â gweddill cefn gwlad, o fewn y system cynllunio tir i amddiffyn AHNE a Pharciau Cenedlaethol. A phriodol hynny. Mae'n briodol hefyd er hynny, herio Awdurdodau a Phartneriaethau i helpu Gweinidogion Cymru â'u dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd i sicrhau bod allyriadau erbyn 2050 o leiaf 80% yn is na'r llinell sylfaen a bennir yn y ddeddfwriaeth.

Trwy gynllunio a rheoli gofalus, mae gan y tirweddau hyn ran allweddol i'w chwarae o safbwynt wynebu heriau addasu i hinsawdd sy'n newid ac arafu'r newidiadau hynny, sicrhau cyflenwad diogel o ynni ac yr un pryd, creu cymunedau cydnerth a chefnogi'r amgylchedd. **Dylid helpu cymunedau i gynnal cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol** sydd â'r potensial i leihau'n dibyniaeth ar ynni carbon a bod yn ffynhonnell arian i'r gymuned.

Hefyd, uchelgais y Llywodraeth yw bod Sector Cyhoeddus Cymru'n garbon niwtral erbyn 2030. Gall Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn arbennig roi arweiniad i greu sector cyhoeddus carbon niwtral.

Cymunedau Cydnerth

Cefnogi cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau.

5. Gwireddu'r potensial economaidd.

Mae gan yr Awdurdodau a'r Partneriaethau gyfle arbennig i helpu i wireddu potensial economaidd eu cymunedau a bod yn esiampl ar gyfer cynnal a hybu twf gwyrdd. Nid oes unrhyw beth yn eu pwrpasau all eu rhwystro rhag gwneud hyn.

Awgrymodd Adolygiad Marsden y dylid creu pwrpas newydd er mwyn cynnwys datblygu economaidd. Mae'r 'trydydd pwrpas' hwn yn rhywbeth y mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a rhai rhanddeiliaid wedi bod yn galw amdano er mwyn newid eu delwedd, fel

bod tirweddau dynodedig yn cael eu gweld yn rhoi mwy o ystyriaeth i les cymunedau. Mae nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gwneud y cysylltiad rhwng yr amgylchedd a'r economi yn gyfrwng i sicrhau datblygu a defnydd cynaliadwy. Er nad ydym wedi diystyru gwerth symbolaidd pwrpas economaidd newydd, nid oes digon o dystiolaeth bod y dibenion o fewn y fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru yn rhwystro ei gyflawni ar lefel ymarferol. Am hynny, ni fwriedir bwrw ymlaen â'r newid hwn nawr heb weld mwy o gefnogaeth neu tan y bydd hi'n glir mai deddfwriaeth newydd yw'r unig ffordd i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.

Mae dyletswydd ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i 'feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn eu parc cenedlaethol' ac mae cyfrifoldeb tebyg ar awdurdodau lleol AHNE yn ardaloedd pobl un o'r awdurdodau. Er mwyn cydnabod eu pwysigrwydd i'r genedl, bydd y system gynllunio'n parhau i gynnal y mesurau mwyaf llym i'w hamddiffyn rhag datblygu amhriodol. Nid yw hynny'n golygu na chaiff y dynodiadau chwarae rhan allweddol i hwyluso datblygiad priodol heb aberthu ansawdd y dirwedd.

Mae angen i gyrff rheoli tirweddau dynodedig ddeall yn well yr hyn a olygir wrth gydnherthedd economaidd a beth yw'r cyfleoedd economaidd, a pharhau i gydweithio ag asiantaethau datblygu economaidd eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol. Dylent ddefnyddio'u pwerau i ddod â chyrff, busnesau a grwpiau lleol ynghyd er mwyn cefnogi a chreu cyfleoedd gwaith.

6. Cynyddu twristiaeth a hamddena awyr agored

Mae amgylchedd naturiol a thirweddau dynodedig Cymru'n cynnig cyfleoedd arwyddocaol i sicrhau twf cynaliadwy mewn twristiaeth.

Mae'r tirweddau dynodedig yn gwella'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i dwristiaid. Mae'r Parciau Cenedlaethol yn enwedig yn gyrchfannau adnabyddus i dwristiaid ac mae'r statws yn rhoi delwedd brand gref iddyn nhw sy'n estyn y tu hwnt i'w ffiniau. Rhaid porthi'r brand hwn a gwireddu'i werth i helpu mentrau lleol. Mae cyfle i'r holl dirweddau dynodedig gydweithio â rheolwyr tir a chynhyrchwyr bwyd i godi ymwybyddiaeth am safonau lles ffermio ac i hyrwyddo cynnyrch lleol. Mae cynnyrch lleol yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo cymeriad y rhanbarth a chefnogi cynhyrchwyr a chyflenwyr.

Annog, cefnogi a rheoli cyfleoedd cyfrifol i hamddena yn yr awyr agored yw un o rolau pwysig AHNE ac un o brif rolau Awdurdodau'r Parciau. Rhaid i ymdrechion ganolbwyntio ar weithio i ddarparu lleoedd a chyfleusterau sy'n addas i'r diben ac sy'n gyson â safon y tirweddau trawiadol y maen nhw'n eu gwasanaethu. Rhaid i raglenni annog pobl i gymryd rhan a chreu cysylltiadau cryf ar draws y sector i sicrhau bod yr ardaloedd a'u nodweddion arbennig yn cael eu defnyddio mewn harmoni.

Gall cymunedau a'r amgylchedd naturiol elwa mwy ar dwristiaeth gynaliadwy a dylid mynd ati i ymgysylltu â darparwyr twristiaeth i weld sut y gallent gyfrannu at gynnal yr asedau naturiol y mae eu busnesau'n dibynnu arnyn nhw, gan gynnwys trwy fentrau fel prentisiaethau gwyrdd a 'visitor giving'.

Gall datblygu marchnadoedd arbenigol amgen trwy gefnogi Geobarc Byd-eang UNESCO, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, statws Gwarchodfa Biosffer UNESCO a Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol ein helpu i gael y gorau o dwristiaeth dreftadaeth a gwyrdd. Dylid gwneud y mwyaf o gydnabyddiaeth y dyfarniadau o bwysigrwydd rhyngwladol a rhinweddau tirwedd Cymru er mwyn sicrhau'r manteision economaidd ac addysgol mwyaf i gymunedau. Ceir cyfleoedd am fwy o gydweithio rhwng yr ardaloedd hyn a'r tirweddau dynodedig, o gofio'r synergedd mawr rhwng eu dibenion.

Mae gan y cyrff rheoli tirweddau dynodedig y potensial i hwyluso mwy o gydweithio rhwng busnesau lleol, awdurdodau lleol, Croeso Cymru a mudiadau'r trydydd sector o fewn eu ffiniau a thu hwnt er mwyn deall yn well y galw a'r potensial i ddatblygu.

Dylai Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wella'r cynlluniau teithiau i'r atyniadau a defnyddio mwy o gludiant sy'n ymateb i'r galw.

7. Y Gymraeg yn ffynnu

Fel ein tirweddau dynodedig, y Gymraeg yw un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel gwlad. Cymraeg 2050 yw uchelgais Llywodraeth Cymru i weld nifer y bobl sy'n gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Bydd gan y tirweddau dynodedig ***ran bwysig i'w chwarae i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol ac fel sgil bwysig yn ein bywyd modern.***

Trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gofyn i awdurdodau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol weithio at wireddu'r saith nod llesiant. Un ohonynt yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Mae'r proffil iaith yn y tirweddau dynodedig gwahanol yn amrywio. Yn y rheini lle ceir cymunedau Cymraeg cryf, yr her yw sicrhau bod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd sy'n rhoi boddhad a chartrefi fel eu bod yn cael aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd iddyn nhw. Mewn ardaloedd eraill, bydd hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith y gweithle a busnes yn tyfu'n fwyfwy pwysig.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio: *Gweithio'n effeithiol ac effeithlon.*

Mae AHNE a Pharciau Cenedlaethol fwy neu lai'n gydradd o safbwynt polisi cynllunio ond nid o safbwynt statws, proffil ac adnoddau. Mae Marsden a Tirweddau'r Dyfodol wedi sylwi ar hynny. Er fy mod yn cydnabod y gall hyblygrwydd y trefniadau llywodraethu yn y partneriaethau AHNE fod yn gryfder, mae perygl y gall fod yn wendid o safbwynt diogelu'r tirweddau gwerthfawr hyn. Byddwn yn dal i weithio gyda'r AHNE i weld pa newidiadau allai fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

8. Mae pob tirwedd yn bwysig

Mae gan bob tirwedd ei rhinweddau arbennig. Dylai'r cyrff a'r partneriaethau sy'n gyfrifol am dirweddau dynodedig **hyrwyddo gyda'i gilydd werth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pob tirwedd a'u defnydd cynaliadwy, gan weithio ar draws ffiniau** gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaethau lleol.

Mae hynny'n golygu trefniadau gweithredol agosach rhwng yr ardaloedd dynodedig ar lefel ranbarthol a chenedlaethol a rhwng y tirweddau dynodedig a'r ardaloedd sydd heb ddynodiad statudol. Drwy hynny gallai'r tirweddau dynodedig arwain ymdrechion i roi cynnig ar a phrofi atebion newydd i heriau amgylcheddol a gwledig. Mae ganddyn nhw'r potensial a'r presenoldeb i ennyn diddordeb cymunedau i gydweithio'n llawn â phartneriaid ac awdurdodau eraill i nodi problemau, diffinio llwyddiant a thargedu buddsoddiad. Rhaid rhannu arferion gorau â phob rhan o gefn gwlad Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru am weld y tirweddau dynodedig yn cymryd camau hyderus i reoli newid positif i'r dirwedd er lles pobl a'r dirwedd. Dylai hyn fod yn amlwg ym mhob cynllun, gweithgaredd a chyfathrebiad.

9. Cydweithio

Mae Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gyfrwng ar gyfer y cydweithio a'r rhwydweithio sydd eu hangen i nodi'r prif heriau sy'n wynebu'r amgylchedd, cymdeithas a'r economi wledig ac ar gyfer cael hyd atebion addas. Er mwyn gallu gweithio'n effeithiol, rhaid iddynt addasu i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, dibenion statudol a buddiannau cymunedau lleol. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig peidio â dibrisio gwerth rhwydweithiau a phartneriaethau traws-sectorol effeithiol a chryf.

Rhaid i dirweddau dynodedig ddangos sut mae taclo heriau amgylcheddol a chymdeithasol cymhleth trwy gydweithio lleol cadarn mewn ffordd sy'n cynnal ac yn cryfhau eu cyfraniad at les Cymru. Mae hyn yn gofyn am y gallu i weithio'n effeithiol ar lefel genedlaethol i ddylanwadu ar flaenoriaethau a chynlluniau strategol ond gan gynnal yr un pryd fadad credadwy a'r berthynas sydd ei hangen i allu eu darparu yn yr ardal leol.

Gall Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gefnogi'i gilydd trwy geisio datrys problemau a gwneud penderfyniadau ar y cyd a thrwy gael llawer o randdeiliaid i gyfrannu at ddiffinio datblygu cynaliadwy. Ond mae Llywodraeth Cymru'n credu bod angen help ar lefel strategol ac mae'n bwriadu **ffurfio Partneriaeth Genedlaethol i ddatblygu diwylliant cydweithio cryf ond a fydd hefyd yn craffu ar flaenoriaethau a gwaith tirweddau dynodedig ac yn eu herio.**

Rhaid i strwythurau Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol barhau i esblygu i roi mwy o bŵer i gymunedau a mudiadau gwirfoddol. Dylid ystyried y cyfleoedd i wella'r ffyrdd y mae cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn llywio ac yn cymryd rhan yng ngweledigaeth a blaenoriaethau pob ardal. I'w helpu, bydd Llywodraeth Cymru'n **cefnogi mesurau i gynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth leol ar fyrdau Parciau Cenedlaethol trwy fentora aelodau a threfniadau cysgodi a chyflwyno deddfwriaeth cyn gynted ag y**

medrir i Awdurdodau Lleol allu diystyru'r gofyn am gydbwysedd gwleidyddol yn eu penodiadau pan fydd hynny'n eu rhwystro rhag penodi aelodau sy'n cynrychioli wardiau yn y Parciau. Mae'n hanfodol bod ein cyrff cyhoeddus yn cael eu harwain yn dda a'u bod yn gynhwysol ac yn adlewyrchu cymdeithas Cymru.

Yn ystod yr arolwg, gofynnwyd am briodoldeb rhoi dyletswydd ar rai cyrff yn unig i roi ystyriaeth briodol i bwrpasau'r dynodiad statudol, gyda golwg efallai ar gryfhau'r ddyletswydd. Mae rhesymeg i'r ddadl hon, ond mae Llywodraeth Cymru am weld agwedd fwy proactif at ymgysylltu a chydweithio, ac y dylid cynnwys mwy na'r nifer gyfyngedig o gyrff sy'n dod o dan gwmpas y statud hon ar hyn o bryd.

Byddai meithrin perthynas ac ymddiriedaeth yn ffordd well o annog cydweithio i gefnogi rhinweddau arbennig ardal na dibynnu ar barodrwydd i gydymffurfio â dyletswydd. Bydd y ddwy ffordd yn gofyn bod pawb yn deall ac yn gwerthfawrogi'r dyheadau ar gyfer ardal ynghyd â'u heffeithiau a'u cyfraniad eu hunain. Diben bodolaeth cyrff y tirweddau dynodedig yw hwyluso'r cydweithio sy'n angenrheidiol i reoli'r tirweddau. Mae'r cydweithio hwnnw'n cynnwys mwy na'r rheini sydd â dyletswydd i roi ystyriaeth. Mae hyn yn rhoi cyfle hefyd i Bartneriaethau'r AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i drafod materion strategol â rhanddeiliaid cenedlaethol.

I gefnogi hyn, disgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru, fel cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar y dirwedd a harddwch naturiol, feithrin a hyrwyddo cysylltiadau ac arferion cydweithio effeithiol â'r partneriaethau a'r awdurdodau sy'n gyfrifol am dirweddau dynodedig. Bydd yn parhau hefyd i roi cyngor a thystiolaeth ar draws yr amrywiaeth o feysydd y mae'n gyfrifol amdanyn nhw, yn unol â'i bwrpas i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

10. Arloesedd wrth gael adnoddau

Dylid mabwysiadu partneriaethau ehangach a modelau ariannu arloesol, lle caiff adnoddau eu denu ac y caiff arian ei fuddsoddi i gefnogi egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi rhoi setliad craidd parchus i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ystyried y pwysau sydd ar wariant y sector cyhoeddus. Bydd yn **llunio mesurau fydd yn galluogi'r cyrff arwain i gynllunio adnoddau am oes Tymor Cynulliad**. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosib canolbwyntio ar gyflawni ac osgoi'r ansicrwydd a'r aneffeithiolrwydd a ddaw o ganlyniad i setliadau ariannol tymor byr. Mae arian ychwanegol yn cael ei neilltuo pan geir cyfle i helpu â gwasgfeydd a phrosiectau penodol yn ôl eu rhinweddau; bydd hyn yn parhau.

Un o brif swyddogaethau'r Awdurdodau a Phartneriaethau yw cydlynu'r adnoddau sydd eu hangen i allu gwireddu blaenoriaethau tirweddau dynodedig. Gwelodd rhaglen Tirweddau Dyfodol Cymru y cyfleoedd canlynol o ran adnoddau:

- Dylanwadu ar yr adnoddau a'r buddsoddiadau sydd eisoes yn yr ardal
- Denu adnoddau i gefnogi gweithgareddau uniongyrchol corff cyflawni
- Denu adnoddau ar gyfer prosiectau penodol

Yn ogystal, **mae gwella crebwyll ariannol a thrwy hynny gynyddu refeniw**, yn her fawr ar gyfer y tirweddau dynodedig. Mae angen amlwg sicrhau bod tîm rheoli pob ardal yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am berfformiad ariannol; bod yna gynlluniau cadarn i gynyddu refeniw; a bod mwy o gydweithio'n cael ei wneud fel teulu o dirweddau dynodedig er mwyn cael dysgu oddi wrth brofiadau eraill ac i osgoi dyblygu gwaith a chystadleuaeth. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n deall bod hyn yn cael ei wneud yn drefnus i gael y gorau o'r gweithgareddau masnachol heb aberthu'r gwerthoedd a'r pwrpasau craidd.

Mae maint a chymhlethdod y trefniadau llywodraethu wrth reswm yn effeithio ar yr adnoddau. Rhaid wrth effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n gyson â llywodraethu effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu **lleihau costau gweinyddol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol** trwy eu tynnu allan o system archwilio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a gostwng nifer aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o 24 i 18.

Monitro cynnydd

Nid yw'r ffaith bod y cyfnod adolygu'n dod i ben yn golygu bod pethau'n mynd yn ôl fel oedden nhw ac nad ydym yn chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau. Mae Llywodraeth Cymru am **gyflwyno pwyntiau ffurfiol ar gyfer adolygu perfformiad presennol** i gael gwared ar yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chyhoeddi adolygiadau, er mwyn i bobl a rhanddeiliaid Cymru gael cyfle i ddweud eu dweud a thrwy hynny sicrhau bod hyn yn ateb y gofyn.

Bydd yr angen i fesur allbynnau a chanlyniadau a chlориannu'r effeithiau yn parhau'n rhan o'r ymdrech i wella perfformiad a bydd y cyfryngau a'r cyhoedd am weld y llywodraeth a sefydliadau'n cael eu dwyn i gyfrif. Er mwyn sicrhau bod Awdurdodau a Phartneriaethau'n parhau i ateb y gofyn, bydd Llywodraeth Cymru'n **cyflwyno trefn rheoli perfformiad gyson a chryfach i fesur effaith y dynodiad ac effeithiolrwydd yr ochr weinyddol** i sicrhau eu bod yn dryloyw ac atebol. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r gwaith ar fonitro'r amgylchedd sy'n cael ei ddatblygu ar lefel genedlaethol.